**Gwasanaeth Pendref – Bore Sul**
**15 Mawrth 2015**

**[Croeso]**

[Cwrdd]

*Amser i adfer yw'r oedfa - defod*
*Ufudd teulu Adda,*
*Awr bêr i dorri bara:*
*Golau dyn yw'r Bugail Da.*

Bore da i chi 'gyd, a chroeso i'r gwasanaeth. Gadewch i ni ddechrau drwy gyd-ganu rhif yr emyn 171.

EMYN 171 (Os gofyn rhywun beth yw Duw)

**[Bowker]**Rwy' wedi bod yn darllen eto. Adeg y Nadolig sylwais fod Gwasg Prifysgol Rhydychen yn cyhoeddi cyfres o rhagymadroddion byr ar wahanol bynciau - a phynciau digon dyrys yn eu plith, gan gynwys **Rhagymadrodd byr iDduw**. Rhaid i mi gyfaddef synu braidd fod rhywun wedi mentro'r fath beth - a ninau'n y capel yn treilio oes yn ceisio'r ateb - ac yn aml ddim callach serchhyny! Porais Gwgl ac Amazon i ddod o hyd i fanylion yr awdur, sef John Bowker - academydd amlwg, cyn gymrawd a deon Coleg y Drindod, Caergrawnt. Prynais y llyfryn, ac mae'n rhaid imi ddweud i mi gael eithaf hwyl o'i ddarllen.

Bwrdwn y llyfr yw rhoi strwythr i ni fyfyrio ar gwestiynau megis (1) Oes yna Dduw? Ydi Duw yn bodoli? (2) Os fod yna Dduw, a hwnw'n holl-alluog, paham y maen caniatau'r holl galedi a thristwch yn ein byd? (3) Os fod yna Dduw, a hwnw'n holl-wybodus, mae'n gwybod dyfodol pob yr un ohonom yn barod. Beth yw pwrpas byd - a bywyd, felly - a beth yw pwrpas ceisio byw yn **dda**, yn arbenig? (4) Ai person yw Duw? Ai dyn neu benyw? (5) Ydi Duw yn gwrando arnom ni? Ydi E'n ateb ein gweddïau? Ydi E'n gallu ymyryd yn ein byd ni yn llythrenol? Ydi E'n gallu newid ein bywydau beunyddiol? (6) Ydi Duw yn disgwyl i ni gynig arberth Iddo? A pha fath o Dduw yw hwnw? Heidda gael ei addoli o gwbl? (7) Pa fath o Dduw byddem ni'n fodlon cynig aberth Iddo, a gwneud aberth drosto?

Mae Bowker yn dodi'r cwestiynau yma mewn cyd-destun athronyddol resymegol, wyddonol bron. Pa gwestiynau ellid eu gofyn am Dduw?Pa gwestiynau sy'n ddylus eu gofyn? Nid yw Duw yn gallu bod fel ni - y mae tu hwnt i bob deall - felly **fel beth**yn union gallai Duw fod? Gan ddefnyddio rhesymeg fathemategol, pa gasgliadiau sy'n bosib eu gwneud am Dduw, ac i ba raddau efallai y mae gobaith profi bodolaeth Duw a phriodweddau Duw yn ddiamheuol?

Mae Bowker yn dod i'w gasgliadau wedi ystyried sawl crefydd, nid Cristnogaeth yn unig. Mae'n olrain **hanes Duw** - neu o leiaf, esblygiad daliadau dynol am Dduw - o safbwynt y Cristion, yr Iddew, y Mwslim a'r Hindw. Mae'n herio'n syniad ni o Dduw. Er enghraifft, mae sawl ystyr i'r gair **Duw** mewn gwahanol grefyddau ac ieithoedd. Pa ystyr sydd orau? Oes ystyr orau? Mae llawer yn meddwl am Dduw'r creawdwr. Duw yw'r bod a greodd ein byd ni. Duw yw'r bod sy'n cynal ein byd ni heddiw. Mae eraill yn meddwl am Dduw fel y bod, ni ellid dychmygu'r un peth **mwy**, mwy mawr, mwy perffaith, mwy bendigedig, mwy prydferth, mwy hyfryd - ni ellid wella arno mewn unryw ffordd. Ac eraill yn meddwl am Dduw yn treiddio pob atom o'n bydysawd, fel y glud sy'n cadw popeth ynghyd, yn cadw popeth i fynd: **cylch a'i ganolbwynt ym mhobman a'i ymyl yn yr unman**.

**[Duw'r Gwybod a Duw'r Fflam**]Mae'r athronydd Richard Swinburne wedi mentro crynhoi efallai'r **ddwy** briodwedd sylfaenol am Dduw. Yn gyntaf, mae Duw yn **gorfod**bod - rheidrwydd yw Duw. Nid oes ganddo gorff, y mae ym mhob man ac ym mhob peth. Duw creodd ein byd. Duw sy'n cynal ein byd. Duw mechanyddol. Duw gwyddoniaeth. Efallai fod y term **Duw'r Gwybod** yn crynhoi'r syniad orau. Yn ail, mae Duw o reidrwydd yn **dda**. Duw yw ffynhonell ein daliadau a'n dyletswyddau moesol. Duw moesol. Duw ffydd, gobaith, cariad. Dewch i ni ddefnyddio'r term **Duw'r Fflam**.

[YHWH]

*Parod ras uwch pryder yw - llais melys*
*Oes astrus, oes ystryw;*
*Yn nagrau oes unigryw*
*Llawenha, cans da yw Duw.*

Yn barod rydym wedi adnabod fod y gair **Duw** wrth ei hunan yn anigonol. Mae bobl yn defnyddio'r term **Duw** mewn cysylltiadau gwahanol i feddwl pethau gwahanol. Rydym ni'r bore 'ma wedi dewis y termau **Duw'r Gwybod** a **Duw'r Fflam** i'w ddisgrifio'n fanylach.

Mae geiriau'r bedwerydd salm ar hugain yn cyfleu a chyfuno'r syniad o Dduw'r Gwybod a Duw'r Fflam cystal â dim.

*Yr ARGLWYDD piau'r ddaear a phopeth sydd ynddi; y byd, a phawb sy'n byw ynddo. Mae wedi gosod ei sylfeini ar y moroedd, a'i sefydlu ar ffrydiau'r dyfnder.Pwy sy'n cael dringo mynydd yr ARGLWYDD? Pwy sy'n cael sefyll yn ei deml sanctaidd? Yr un sy'n gwneud beth sy'n iawn a'i gymhellion yn bur; yr un sydd ddim yn twyllo neu'n addo rhywbeth heb fwriadu ei gyflawni.Mae'r ARGLWYDD yn bendithio pobl felly; byddan nhw'n cael eu derbyn i berthynas iawn gyda'r Duw sy'n achub. A dyma'r math o bobl sy'n cael troi ato: y rhai sydd eisiau dy gwmni di, O Dduw Jacob.*

Yr Arglwydd a greodd ein byd, a'r Arglwydd sy'n cynig gobaith i ddyn. Yn codi dyn yn uwch na'r byd materol. Yn dangos i ddyn fod yna bwrpas uwch.

Dewch i ni ymdawelu mewn gweddi.

GWEDDI

Diolchwn am y cyfle i ddod at ein gilydd yn yr oedfa y bore ‘ma, i fyfyrio a rhanu awr yn nheulu’r eglwys ym Mhendref.

‘Da ni’n byw mewn gwlad mor brydferth:gwlad Eryri, y Preseli, Cader Idris a’r Mynydd Du. Gwlad Ynys Cwyfan, Ynys Enlli a Sgomer. Gwlad y Ddyfrdwy, y Ddwyfor, y Tawe a’r Teifi. Gwlad Pincyn Llys, Craig Adwy Wynt, y moelydd, Llanynys a Llangar. Gwlad Rhandirmwyn a Llyn Y Fan. Gwlad Tŷ Ddewi, Cenarth a Nanhyfer. Gwlad y Sosban Fach a’r Galon Lân.

Diolchwn am fendithion bywyd, a sylweddolwn pa mor ffodus i ni yng Nghymru i’w gymharu â llawer yn ein byd. ‘Da ni’n diolch am ein hiechyd, am deulu a ffrindiau a chymdogaeth glos, ac am obaith a hapusrwydd bywyd. Meddyliwn am rheini yng Nghymru a thrwy’r byd sy’n byw â gofid, neu anobaith, neu unigrwydd neu afiechyd. Cofiwn am deulu a ffrindiau sy’n sâl heddiw neu yn gaeth i’w

haelwydydd. ‘Da ni’n gwybod am ddegau o bobl byddai wrth eu bodd yn rhanu oedfa yma ym Mhendref, ac mewn capeli drwy Gymru’r bore hwn, ond yn methu.

Meddyliwn am rheini sy’n dioddef heddiw, yng Nghymru a ledled byd. Meddyliwn am rheini sy’n cael eu geni i fyd o rhyfel di-baid, ac yn gorfod ymdopi â chanlyniadau rhyfel gweddill eu bywydau.

Meddyliwn am rheini sy’n byw o dan orthrwm. Meddyliwn am rheini sy’n byw ag afiechyd. Meddyliwn am rheini sy’n byw mewn newyn a thlodi. Meddyliwn am rheini sy’n dioddef o iselder ysbryd.

Diolchwn am bobl sy’n ddigon galluog a dewr i geisio gwella pethau yn ein byd. Pobl sy’n tynu’n sylw at **anghyfiawnderau** o’n cwmpas, a phobl sy’n ceisio datrys anghydfod. Gweddïwn dros rheini sy’n rhoi o’u hamser i wella’n byd, a sylweddolwn fod llawer yn rhoi wythnosau, blynyddoedd a bywydau cyfan, heb yn wybod i ni, i wneud ein byd yn fwy cyfiawn a theg. Diolchwn am rheini sy’n cymwynasu bob dydd, fel nyrsis a meddygon sy’n rhoi gwellhad, a’n hathrawon sy’n addysgu’n plant a’n bobl ifanc.

Diolchwn am rheini sy’n gwneud y gorau o’u doniau mewn labordy, ar lwyfan, ar dudalen, ar faes chwarae, gan ddod â boddhad ac ysbrydoliaeth i ni gyd.

Gweddïwn dros ein harweinwyr, y cawn nhw’r gallu i wneud penderfyniadau doeth mewn byd lle mae hawliau’r unigolyn yn bwysicach na hawliau cymdeithas. Lle mae rhyddid yr unigolyn yn caethiwo cymdeithas. Lle mae **fi** yn trechu **ni**. Lle mae cyfalaf yn trechu cymuned, a materoldeb yn peryglu ysbryd. Lle mae **arian** yn boddi **anian**. ‘Da ni’n poeni am yr unigoledd, y myfiaeth, yr hunanoldeb sy’n rhemp yn ein cymdeithas. ‘Da ni’n byw mewn bocs sy’n brysyr dywyllu, yn methu gweld tuhwnt i furiau uchelgais personol, trachwant gyfalafol a’r farchnad rhydd. Gweddïwn am y goleuni. Gweddïwn dros ddedwyddwch a chydraddoldeb. Gweddïwn am y nerth i roi ein cyd-ddyn yn gyntaf, nid ni ein hunain.

Gweddïwn dros ein harweinwyr yn y Cynulliad, y cawn nhw’r hyder, y weledigaeth a’r dyfalbarhad i greu Cymru gyfartal, ddemocrataidd. Â’r etholiad cyffredinol yn agosau, gweddïwn y bydd cymuned, cymdeithas ac ysbryd ar eu henill, a materoldeb a hunanoldeb ar eu colli. Gweddïwn y bydd Cymru ar ei henill. Er waethaf yr apathi wleidyddol presenol, **gwyddom** taw ein cyfrifoldeb ni yw ceisio creu byd a chymdeithas i efelychu neges y Beibl - cymdeithas yn seiliedig ar wir gydraddoldeb - ar garu cymydog.

Fel y nodywd mewn llythyr i’r papur newydd yn ddiweddar, rhaid i ni sylweddoli **ni all Cristion fod yn gyfalafwr**. Mae daliadau Cristnogaeth a chyfalafiaeth yn anghyson.

Meddyliwn am ddyfodol ein Daear. Gobeithiwn y bydd einharweinwyr yn gweld yn ddoeth i gyd-weithio a chyd-aberthu er lles ein planed.

A diolchwn o’r newydd y bore ‘ma am eiriau’r Testament Newydd, am ganllaw bywyd Iesu o Nasareth a gobaith a chariad neges Paul. Gofynwn i neges yr Iesu fwydo’n bywydau ni, i buro’n calonau ni, i gynal ein fflam a gwneud i’n golau mewnol wenu’n llachar a thyner, fel y gallwn ni ysbrydoli eraill, ac eraill ein hysbrydoli ni.

Chwiliwn am nerth i fyw’n addwyn a thrugarog. I fyw â chariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder a hunan-ddisgyblaeth. A chwiliwn am y nerth i wneud gwahaniaeth, i fod yn gymwynasgar, i rhoi’r flaenaf yn olaf, a’r olaf yn flaenaf.

*Dilyn oen heb boen penyd – dilyn sarn*
*Nid rhagfarn ein drygfyd;*
*Dilyn bloedd y miloedd mud;*
*Maddau bai, meddu bywyd.*

Gofynwn hyn yn enw'r un a'n dysgodd, pan yn gweddïo, i ddweud gyda'n gilydd: Ein Tad yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, ...

CYHOEDDI A CHASGLU

A gawn ni barhau'n gwasanaeth drwy gyd-ganu rhif yr emyn 161

EMYN 161 (Gras, O'r fath beraidd sain)

**[Gofal wrth siarad am Dduw]**Nid yw Duw fel dyn 'da'n ni'n cwrdd yn Nhesco Rhuthun rhyw fore Sadwrn. Fel meidrolion, ni allwn weld ac adnabod Duw fel hyn. Nid yw Duw fel person sy'n fyw heddiw ac yn farw 'fory. Mae popeth y gwyddom amdano yn rhan o'r greadigaeth. Rydym ni ein hunain yn rhan o'r greadigaeth. Mae'n bodolaeth ni yn amodol ar fodolaeth y greadigaeth. Sut yn y byd felly gallwn adnabod, neu hyd yn oed ymgyffred â'r bod a greodd y greadigaeth? Nid yw Duw yn amodol ar ddim. Yn syml: **Y mae Duw**.

Er mwyn fod wedi gallu creu'r greadigaeth, y mae'n rhaid i Dduw fod yn fwy, yn rhyfeddach, y tuhwnt i'r greadigaeth a phopeth ynddi. Yn y synwyr hwn, gellid dadlau'n wir nad yw Duw yn **bod** fel popeth arall y gwyddom amdano - nid yw Duw yn faterol - ond y mae Duw yn dragywydd, yn fyth-bythol - y tuhwnt i fodolaeth, fel petai. Ond mewn ffordd gyffelyb gellid dadlau taw**dim ond Duw sy'n bod**, gan mai dros-dro yw popeth y gwyddom amdano. Pobl, anifeiliaid, planhigion. Dros dro hyd yn oed yw planedau a heuliau a galaethau. Hyd y gwyddom, dros dros yw'n bydysawd. Ond mae Duw yn dragywydd.

Anodd felly yw siarad am Dduw. Naturiol felly yw defnyddio cyffelybiaethau i'w ddisgrifio. Er enghraifft, ystyriwch y gosodiad:**Mae Duw yn caru**. Duw yn unig a ŵyr – yn llythrenol - beth yn union mae'r gosodiad yn fod i'w olygu. Fe wyddom ni sut mae mam yn caru ei phlant, sut mae dyn yn caru ei wlad, sut mae dilynwr tîm pêl-droed Abertawe yn caru'r Swans. Gan nad ydym yn deall Duw, ni allwn ddeall y frawddeg:**Mae Duw yn caru**. Ond drwy'n dealldwriaeth o**gariad** o'r cysylltiadau y gwyddom amdanynt, gallwn wneud rhyw fath o ymgais i ddeall ystyr:**Mae Duw yn caru**.

Meddyliwch yn yr un modd am yr ymadrodd: **Iesu, mab Duw**. Beth yn y byd yw ystyr hwn? Gwyddom yn barod taw nid meidrolyn yw Duw. Nid yw yn atgynhedlu - ond un Duw sy'n bod, nid oes modd creu Duw arall. Felly hyrtwch llwyr yw siarad am **fab Duw** yn yr ystyr arferol, dynol. Dwi'n cofio mam yn dweud wrtho i pan yn blentyn i wisgo'n deidi wrth fynd allan gyda'm ffrindiau - ac os na fyddwn yn weddus, y sgrech wrth adael y ty fyddai: **Paid â dweud wrth neb dy fod yn fab i fi!**Nid gofyn i fi wadu' nhenynau ydoedd, ond gofyn i fi ymddwyn mewn ffordd oedd yn gyson â'i disgwyliadau hi a'i moesau. Lle'r mab da yw efelychu'r rhieni - **parchu trywydd ei gyn-deidiau wrth ddilyn ei drywydd ei hun.** Onid yw'n gwneud llawer fwy o synwyr i feddwl am yr Iesu fel hyn, rhywun yn llawn cariad Duw'r Fflam - wedi ei ysbrydoli a'i feddianu gan weledigaeth foesol fendigedig **cariad**. Cariad brawdol, **agape**.

Meddyliwch am y gair **gwyrth**. Daw'r gair **miracle** o'r Lladin **miror** yn golygu **rhyfeddaf at** neu **fe'm rhyfeddwyd gan**. Fel gwyddonydd, gwelaf popeth o'm cwmpas yn **wyrthiol**. Mae'n bodolaeth yn wyrthiol. Mae pob yr un ohonom yn cyflawni gwyrthiau - yn llythrenol - pob eiliad o'n hoes. Os bod hanesion fel **codi o'r meirw** neu **atgyfiodiad** yn llythrenol gywir, mae'n byd hyn yn oed yn fwy rhyfedd. Ond nid oes angen rhain arnaf yn bersonoler mwyn credu yn Nuw.

Rwyn cofio clywed rhai yn dadlau na ddylsem hyd yn oed geisio deall Duw. Os ei fod y tuhwnt i bob deall, beth yw pwrpas mentro? Ac wedyn eraill sy'n meddwl i'r gwrthwyneb fod dyn yn deall y cwbl oll yn barod, fod dim angen Duw arnynt. Fod dyn hwyrach wedi meistroli natur:

[Gogoniant]

*Ai medr a hawl meidrolyn yw diosg*
*Mantell Duw'r diderfyn?*
*Bydd hawl gweld diawl yn dilyn*
*Am mai dall yw deall dyn!*

**[Dadlau o blaid Duw]**Honodd Thomas Aquinas (o'r drydedd ganrif ar ddeg) fod yna bump dadl o blaid bodolaeth Duw - **y pump ffordd**. Hyny yw, mae angen Duw: i esbonio sut daeth y greadigaeth i fod, i esbonio sut mae'r greadigaeth yn parhau i fodoli, ac i esbonio'r ffaith fod yna gyfeiriad i'r greadigaeth, fod pethau'n datblygu, fod yna strwythur a phwrpas fel petai. Yn ogystal, mae 'na ddadl **onto-rhesymegol** sy'n dal fod unrhyw fod perffaith yn gorfod bodoli.

Yn 2007, cyhoeddodd Antony Flew lyfr yn dwyn y teitl **There is a God : how the world's most notorious atheist changed his mind**. Daeth i'r canlyniad nad yw gwyddoniaeth yn gallu dweud dim am fodolaeth Duw. Gan rhesymu fel mathemategydd, defnyddio syniadau tebygolrwydd, a dechrau o acsiomau sylfaenol fel rhai Aquinas, casgliad Flew oedd fod bodolaeth Duw yn fwy tebygol na pheidio. Ymhellach – gyda llaw - daeth i'r casgliad y byddai'n bosib i Dduw ymyryd yn uniongyrchol yn y byd sydd ohoni heddiw.

Fel rwy' wedi sôn sawl gwaith yn y gorffenol, mae rhai gwyddonwyr - fel Richard Dawkins - yn dadlau mai gwaith gwyddoniaeth yw deall **sut** mae'r byd yn gweithio, a dim byd mwy. Yn arbenig, nid lle gwyddoniaeth yw ystyried cwestiynau fel **paham fod y byd yn bodoli**. Mae'r bydysawd yn bodoli, a dyna ni. Nid oes dim i'w esbonio. Ond mae eraill yn anghytuno'n llwyr, diolch byth!Gyda llaw, eto, ysgrifenodd yr Athro Flew – yr anghredadyn newidiodd ei feddwl - erthygl wych o ateb i lyfr Richard Dawkins **The God Delusion** sy'n werth ei darllen - mae ar gael ar y rhyngrhwyd.

Fel y dywedodd yr athronydd Wittgenstein ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, dirgelwch mawr y greadigaeth yw nid **sut mae pethau'n gweithio** ond **paham fod pethau'n bodoli yn y lle cyntaf ... ac yn dal i fodoli**? Fel y dywedodd yr athronydd cyfoes Brian Davies:*Y ffaith yw fod bodolaeth y bydysawd yn benbleth. Os bod hawl genym ofyn sut mae pethau'r bydysawd yn rhyngweithio, mae hawl genym hefyd ofyn paham fod y bydysawd yno yn y lle cyntaf*. Yn ôl David Conway *nid oes rheswm athronyddol ddigonol dros **wadu** bodolaeth Duw fel esboniad i'r bydysawd, a ffurf y trefniant sydd ganddo*. Mae pwysau'r dadleuon athronyddol felly **o blaid bodolaeth Duw**.

**[Esblygiad syniadau am Dduw]** Ry'n ni 'gyd yn gyfarwydd â chwedlau'r Mabinogion. Â'r syniad taw ar lafar y pasiwyd y chwedlau o un genhedlaeth i'r nesaf tan daeth modd eu cofnodi'r ysgrifenedig. Ry'n ni'n gwybod fod y chwedlau wedi cael eu haddasu dros y blynyddoedd. Plethwyd agweddau newydd i'r hanes o ffynonellau allanol, ac anghofiwyd am agweddau eraill, yn ôl blâs a blaenoriaethau cyfnod yr addasiad. Mae'r un yn wir am ein syniad Cristnogol o Dduw – neu, i fod yn gywir, syniad y llwyth a enwyd yn ddiweddarach yn Iddewon – o Dduw. Hanes llwyth o fugeiliaid crwydrol yw pump llyfr cynta'r Beibl. Am ryw reswm, yn y llwyth arbenig hwn, datblygodd y syniad fod Duw wedi ei alw

at waith arbenig. Fod y llwyth yn arbenig. Edrydd y Beibl yr hanes, bron fel petai fod Duw ei hun yn siarad. Galwyd y llwyth gan Dduw i symud o Fesopotamia (sef ardal ar lanau'r Tigris a'r Iwffrates - Irac, Ciweit a Syria heddiw) i'r wlad a elwir Israel erbyn hyn. Y broblem oedd fod llwythi eraill (gan gynwys y Cananeaid) yn byw yno – ar dir Israel – yn barod. Yn naturiol nid oedd y Cananeaid y rhy awyddus ildio'u gwlad i lwyth estron o Fesopotamia!

(Gyda llaw, onid yw'n rhyfedd mai rhyfel yw hanes y dwyrain canol hyd heddiw? Ta' beth ...)

Gorchmynodd Duw i'rllwyth o Fesopotamia – a'i arweinydd Abraham – ddinistrio pob llwyth arall yng ngwlad yr addewid; nid cymodi â nhw – eu lladd. Ond nid dyna ddigwyddodd yn hanesyddol. Dysgodd llwyth Abraham a'r Cananeaid gyd-fyw i raddau helaeth. Ffaith ffodus iawn serch Cristnogaeth. Oherwydd roedd y Cananeaid yn gallu ysgrifenu ag alphabet – nid â chiwnifform llafurus fel yn Mesopotamia. Felly medrwyd ddechrau cofnodi syniadau am Dduw'r Iddewon. Credai'r Cananeaid mewn Duw o'r enw **El**, ac is-dduwiau o'r enw **Elohim**¸ ac arglwyddi dychmygol o'r enw **Baalim**. Mewn amser, dechreuodd llwyth Abraham ddefnyddio'r enw **El** am eu Duw hefyd, a mabwysiadwyd syniadau Cananeaidd am Dduw. Storiau, credoau, hanesion yn cyd-blethu i'r raddau ei fod yn anodd adnabod y gwreiddiol. Daeth Duw'r Iddewon a'r Cananeaid yn un. Ond nid oedd lle i'r **Baalim** yn y gyfundrefn newydd, fel y gwyddwn o gofio hanes Eleija yn herio proffwydi Baal. Gyda llaw, o'r un geiriau **El** ac **Elohim** y daw'r gair **Arabaidd** am Dduw, sef **Al-la**.

Yn nghyfnod y brenin **Dafydd**, tua 1100CC, dechreuodd morwyr o Roeg oedd wedi ymgartrefu ar hyd arfordir Israel symud i mewn i'r tir mawr. Y Philisteiniaid oedd rhain. Canlyniad lledaeniad y Philisteiniaid oedd i Ddafydd uno'r llwythi Iddewig – **Bene Jacob** – a gorchygu a meddianu dinas Jeriwsalem lle'r oedd y **Jebiwseaid** yn byw, a daith Jeriwsalem yn ddinas gonolog i'r Iddewon. Cymerodd Dafydd syniad Jebiwseaidd **– Y Deml** – a'i fabwysiadu ar gyfer yr Iddewon. Cyn hyny, roedd y syniad o ddeml yn ddieithr i'r Iddewon. Cymerodd Dafydd syniad Jebiwseaidd arall, taw lle penaeth yr Iddewon – eu brenin – eu brenin eneiniog - oedd y cyswllt rhwng Duw a dyn. Dros y blynyddoedd, gan mai**mor siomedig** oedd perfformiad y brenhinoedd **meidrol** yn gyffredinol, datblygodd y syniad y byddai brenin da yn dod rhyw ddydd yn y dyfodol. Y gair Hebraig am eneiniog (**anointed** i'r Sais) yw **hamashiach**, a dreiglwyd dros amser yn**Feseia**. Cyn i Ddafydd orchfygu'r Jebiwseaid felly, roedd y syniad o ddeml ac o Feseia yn **hollol ddieithr** i'r Iddewon.

Mae hanes y Beibl Iddewig yn gymleth a hynod ddiddorol. Dwi'n deall dim amdano. Ond mae rhai ffeithiau'r drawiadol. Eto, yn ôl y gwybodusion, nid yw'r syniad o fywyd tragwyddol – bywyd ar ôl marw – yn bodoli. Ond roedd y syniad mai pechod achosai afiechyd yn amlwg. Yn Hebraeg, nis ysgrifennir llafariaid. Yn y Beibl Iddewig, y gair am Dduw yw **YHWH**. Yr anghaniad arferol erbyn heddiw yw **ia-we**, ond nid oes neb yn gwybod yn sicrbeth oedd yr anghaniad gwreiddiol. Am y rheswm hwn mae rhai Iddewon yn gwrthod dweud y gair **Duw**. Yn hwyrach, defnyddiwd y llafariaid o'r gair **adonai** (a olyga **arglwydd**) am yn ail gyda llythrenau YHWH i greu'r gair **Jehova**! Credoau'r Iddew, y Cristion, y Mwslim, y Cananead, y Jebiwsead – yn blith traphlith.

[YTad]

*Fel El, Ia-we ac Al-la, da yw'n duw*
*Un a dawn addasiad;*
*Yn ei enw mae'n huniad;*
*Heb ei rhin ni chawn barhad.*

Cyn bwrw 'mlaen i feddwl mwy am Dduw's Gwybod a Duw'r Fflam, gadewch i ni ganu eto. Rhif yr emyn 172.

EMYN 172 (Am air ein Duw)

**Duw'r Gwybod**: Dewch i ni ystyried Duw'r Gwybod yn fanylach. Yn arbenig, dewch i ni feddwl am ddehongliad y cread o safbwynt yr Hen Destament a Genesis, ac wedi hyny o safbwyt wyddonol.

*Ar y dechrau cyntaf, dyma Duw yn creu y bydysawd a'r ddaear. Roedd y ddaear yn anhrefn gwag, ac roedd hi'n hollol dywyll dros y dwr dwfn. Ond roedd Ysbryd Duw yn hofran dros wyneb y dwr. A dwedodd Duw, "Dw i eisiau golau!" a daeth golau i fod. Roedd Duw yn gweld bod hyn yn dda, a dyma Duw yn gwahanu'r golau oddi wrth y tywyllwch. Rhoddodd Duw yr enw "dydd" i'r golau a'r enw "nos" i'r tywyllwch, ac roedd nos a dydd ar y diwrnod cyntaf.*
*Wedyn dwedodd Duw, "Dw i eisiau cromen o aer rhwng y dyfroedd, i wahanu'r dwr yn ddau." A dyna ddigwyddodd. Gwnaeth Duw gromen o aer, ac roedd yn gwahanu'r dwr oddi tani oddi wrth y dwr uwch ei phen. Rhoddodd Duw yr enw "awyr" iddi, ac roedd nos a dydd ar yr ail ddiwrnod.*
*Dwedodd Duw, "Dw i eisiau i'r dwr sydd dan yr awyr gasglu i un lle, er mwyn i ddaear sych ddod i'r golwg." A dyna ddigwyddodd. Rhoddodd Duw yr enw "tir" i'r ddaear, a "moroedd" i'r dwr. Roedd Duw yn gweld bod hyn yn dda.Yna dwedodd Duw, "Dw i eisiau i laswellt dyfu o'r tir, a phob math o blanhigion sydd â hadau ynddyn nhw, a choed ffrwythau. Bydd yr hadau ynddyn nhw yn gwneud i fwy o'r planhigion gwahanol hynny dyfu." A dyna ddigwyddodd. Roedd y tir wedi ei orchuddio gyda glaswellt a phlanhigion a choed o bob math, â'u hadau eu hunain ynddyn nhw. Roedd Duw yn gweld bod hyn yn dda, ac roedd nos a dydd ar y trydydd diwrnod.*
*Dwedodd Duw, "Dw i eisiau goleuadau yn yr awyr i wahanu'r dydd a'r nos. Byddan nhw hefyd yn arwyddion i fesur y tymhorau, y dyddiau a'r blynyddoedd. Byddan nhw'n goleuo'r ddaear o'r awyr." A dyna ddigwyddodd. Gwnaeth Duw ddau olau mawr — yr haul a'r lleuad. Roedd yr un mwya disglair, sef yr haul, i reoli'r dydd, a'r golau lleiaf, sef y lleuad, i reoli'r nos. Gwnaeth Duw y sêr hefyd. Gosododd nhw i gyd yn yr awyr i oleuo'r ddaear, i reoli dydd a nos, ac i wahanu'r golau oddi wrth y tywyllwch. Roedd Duw yn gweld bod hyn yn dda, ac roedd nos a dydd ar y pedwerydd diwrnod.*
*Dwedodd Duw, "Dw i eisiau'r dyfroedd yn orlawn o bysgod a chreaduriaid byw eraill, a dw i eisiau i adar hedfan yn ôl ac ymlaen yn yr awyr uwchben y ddaear." Felly dyma Duw yn creu y creaduriaid enfawr sydd yn y môr, a'r holl bethau byw eraill sydd ynddo, a'r holl wahanol fathau o adar hefyd. Roedd Duw yn gweld bod hyn yn dda. A dyma Duw yn eu bendithio nhw, a dweud, "Dw i eisiau i chi gael haid o rai bach, nes eich bod chi'n llenwi'r dwr sydd yn y môr, a dw i eisiau llawer o adar ar y ddaear." Ac roedd nos a dydd ar y pumed diwrnod.*
*Dwedodd Duw, "Dw i eisiau i greaduriaid byw o bob math lenwi'r ddaear: anifeiliaid, ymlusgiaid a phryfed, a bywyd gwyllt o bob math." A dyna ddigwyddodd. Gwnaeth Duw bob math o greaduriaid gwyllt, pob math o anifeiliaid, ac ymlusgiaid a phryfed gwahanol i fyw ar y ddaear. Roedd Duw yn gweld bod hyn yn dda.Yna dwedodd Duw, "Gadewch i ni wneud pobl yn ddelw ohonon ni'n hunain, i fod yn debyg i ni; i fod yn feistri sy'n gofalu am bopeth — y pysgod yn y môr, yr adar yn yr awyr, yr anifeiliaid, y ddaear gyfan a'r holl greaduriaid a phryfed sy'n byw arni."Felly dyma Duw yn creu pobl ar ei ddelw ei hun. Yn ddelw ohono'i hun y creodd nhw. Creodd nhw yn wryw ac yn fenyw. A dyma Duw yn eu bendithio nhw, a dweud wrthyn nhw, "Dw i eisiau i chi gael plant, fel bod mwy a mwy ohonoch chi. Llanwch y ddaear a defnyddiwch ei photensial hi; a bod yn feistr sy'n gofalu am y pysgod sydd yn y môr, yr adar sy'n hedfan yn yr awyr, a'r holl greaduriaid sy'n byw ar y ddaear." Dwedodd Duw, "Edrychwch. Dw i wedi rhoi'r planhigion sydd â hadau a'r ffrwythau ar y coed i gyd, i fod yn fwyd i chi. A dw i wedi rhoi'r holl*

*blanhigion yn fwyd i'r bywyd gwyllt a'r adar a'r holl greaduriaid bach eraill sydd ar y ddaear — ie, pob un creadur byw." A dyna ddigwyddodd. Edrychodd Duw ar bopeth roedd wedi ei wneud, a gweld fod y cwbl yn dda iawn. Ac roedd nos a dydd ar y chweched diwrnod.*

Stori anhygoel. Allwch chi ddychmygu'r wybodaeth, y grym a'r trefn fyddai eisiau i greu byd cyfan mewn saith niwrnod? Anhygoel. Nawr, dewch i fentro ar ddisgrifiad byr o'r bydysawd o safbwynt wyddonol.

[Pob peth ymhell ac agos] *Dywed rhyw foi o'r enw Albert un tro: "Dwi eisiau gwybod sut y creodd Duw y byd. Nid oes diddorbeb genyf mewn ffenomenonau unigol ... Dwi eisiau gwybod Ei feddyliau Ef; manylion ydi'r gweddill". Cytuno ai peidio â'r ysgogiad crefyddol, hyrddia rhai profiadau'r dyfyniad i flaen i cof, a daw bwriad y geiriau'n amlycach. Fel edrych i'r nen ar noson di-leuad, di-gwmwl, a darganfod o'r newydd y rhyfeddod uwchben - golygfa anhygoel y cymerwn mor ganiataol. Gwelwch chi Seren y Gogledd - Polaris - ar ddiwedd cytser yr Aradr? Gwyddoch chi beth yw pellter Polaris oddi wrthym? Medrwch chi goelio fod golau'n teithio am 820 mlynedd o Polaris i gyrraedd ein llygaid? Pe byddai Polaris yn ffrwydro'n ddeilchion heddiw, ni fuasai'n bosib gwybod am y digwyddiad tan y flwyddyn 2835! Cofiwch fod dim yn teithio'n gynt na golau, a bod golau yn teithio rhyw 300,000km yr eiliad! Pe byddech yn dewis amgylchynu'r ddaear ar gyflymdra golau, buasech yn gallu cyflawni'r dasg tua 10 gwaith pob eiliad! I deithio o'r ddaear i'r haul, buasai angen rhyw 8 muned arnoch. Ond mae Polaris ar ein stepyn drws - na, ar flaen ein trwyn - o'i gymharu â'r ser dirifedi sydd i'w gweld. Mae lluniau o delescop ofod Hubble yn dangos seren o'r enw di-nod HE 0107-5240 sydd rhyw 36,000 olau-mlynedd iffwrdd ond yn 13.5 biliwn (13,500,000,000) mlwydd oed – un o'r sêr hynaf yn y bydysawd a ganfyddwyd hyd yn hyn. Mwy hynod fyth, mae galacsïau - fel ein Llwybr Llaethog ni, â miliynau o ser - hefyd yn aneirif. Mae engrheifftiau adnabyddus fel Pegasws, Andromeda ac Acwriws dros miliwn olau-mlynedd iffwrdd. Ond mae galacsïau sy'n hysbys i ni mor bell â 10 biliwn olau-mlynedd oddi wrthym.*

*Y digwyddiad a ddechreuodd y cwbl oll oedd y Glec Fawr, y **Big Bang**, ffrwydrad nerthol o ofod ac amser a greuodd y bydysawd a phopeth ynddo, rhyw 13.7 biliwn mlynedd yn ol. Y dystiolaeth orau o blaid y Glec Fawr yw'r ymbelydredd meicrodon a dreiddia drwy'r bydysawd o darddle yn ei ganol - ol troed y ffrwydrad cychwynol, a ddarganfyddwyd yn ffortiynus gan wyddonwyr wrth ddyfeisio radar yn ystod yr Ail Rhyfel Byd. Ni wyddom paham y digwyddodd y Glec Fawr, nac ychwaith os y bodolai unrhywbeth gynt, nac ychwaith beth yw dyfodol y bydysawd. Yn ol y gwybodusion, anodd dychmygu sut y bydd gwyddoniaeth fyth yn medru datrys y fath ddirgelion - maent mor anesboniadwy a'n meidroldeb ni ein hunain. Eto, i'r crediniwr, mae gan yr hen Albert eiriau o gyngor: "Dall yw crefydd heb wyddoniaeth, a chloff yw gwyddoniaeth heb grefydd". O'r damcaniaethau gwyddonol poblogaidd am y bydysawd, hona un mai profi cyfnod chwyddiant mewn gylchred naturiol o'rGlec Fawr, chwyddo a datchwyddo (llwyr) cyn Clec Fawr arall, ac yn y blaen yn ddibendraw. Coeliwch chi, ni fuasai rheolau ffiseg o reidrwydd yr un fath o gwbl wedi'r Glec Fawr nesaf? Yn wir, ni wyddom beth yw ffurf ein bydysawd presenol yn ei gyfanrwydd - un ddamcaniaeth ddiweddar yn honi mai siap fel het Sion Corn sydd ganddo!*

*Rhag ofn i chi gael yr argraff mai ond ym myd y ser y mae'r cyffro i gyd, diderfyn hefyd yw'r rhyfeddodau ar bob raddfa arall yn ein bydysawd, ym mhob atom a moleciwl o'n cyfansoddiad - cofiwch mae'n siwr fod peint o ddwr yn cynnwys dros miliwn, biliwn, biliwn o folecylau! Am y byd atomig, mynodd yr hen Albert: "Nid yw Duw'n chwarae deis" tra'n dadlau yn erbyn y ddamcaniaeth cwantwm sy'n hawlio y gall gronyn megis electron fod mewn mwy nag un man ar yr un pryd - ond unwaith iddo gael ei weld mewn un man, diflana o'r llall!*

Dyma ichi ddisgrifiad anhygoel arall o waith Duw. I fi, mae'r esboniad gwyddonol yr un mor anodd ei dderbyn a'i ddeall ag esboniad Genesis. Ond mae'r ddau ddisgrifiad yn dangos gogoniant ein byd, a'r strwythur anghredadwy sy'n perthyn iddo. Trefniant amlwg, anwadol, diamheuol. Naturiol ond tuhwnt i bob deall. Duw'r Gwybod.

Dywedodd Spinoza, athronydd o'r ail ganrif ar bymtheg, taw Duw yw'r**un** a'r **unig** sylwedd di-ben-draw yn ein byd; hyny yw, **Duw yw popeth**. Duw yw natur gyfan. Duw **yw'r** greadigaeth.

Nid yw cydnabod ein bod yn credu fod Duw yn **debygol** yn cadarnhau nemor ddim am natur Duw - cwestiwn gwahanol yw hwnw, cwestiwn llawer anos ei drin. Byddai'r seryddwr Galileo'n difynu geiriau'r Cardinal Baronio *Pwrpas yr Ysbryd Glan yw ein dysgu i fynd i'r nefoedd, nid sut mae'r nefoedd yn mynd*. O gymharu â chyfnod yr Hen Destament, a chyfnod y Testament Newydd, mae gwyddoniaeth wedi datblygu'n anhygoel. Bellach - ar un lefel - a lefel arwynebol mae'n debyg iawn - mae dyn yn dechrau deall ychydig am strwythur natur. Ond nid lleihau yr angen am Dduw mae gwyddoniaeth - nid lleihau **tebygolrwydd Duw**. Na, mae pob darganfyddiad a damcaniaeth newydd yn dangos rhyfeddod ein byd yn gliriach. Yn dangos llaw Duw yn amlycach.

[Rhaid]

*Rhaid mai nod ein bod yw byw'n annwylo'r*
*Ddynoliaeth unigryw;*
*A rhaid ein myfyr ydyw*
*Mai cyfoeth i'r doeth yw Duw.*

Ac mae'r gwyddonydd call yn gweld hyn, wrth gwrs. Dyma ddywedodd Richard Feynman, enillyd Gwobr Nobel ffiseg sy'n crynhoi'r cwbl am ein dealldwriaeth o Dduw'r Gwybod: *Amcangyfrifon o'r gwirionedd yw popeth y deallwn am gydranau natur, neu'r gwironedd ei hyn cyn belled a'i ddeallwn. Mewn gwirionedd,* ***ancangyfrif yw popeth y gwyddom am bopeth****, gan nad ydym eto'n deall deddfau natur. Felly, y ffordd ymlaen yw* ***dysgu*** *pethau newydd - amcangyfrifon newydd - cyn gorfod eu* ***dad-ddysgu****, neu - yn fwy tebygol - eu* ***cywiro****.*

**[Duw'r Fflam]**Ond nid Duw'r Creawdur, Duw'r peirianydd uwch-naturiol yw'r stori gyfan. Mae 'na Dduw arall – neu agwedd arall ar Dduw. Duw personol – Duw'r tu-mewn. Duw'r Fflam. Teimlai'r mathemategydd Pascal bresenoldeb Duw fel **tân yn llosgi ynddo**. Nid fel ryw drafodaeth athronyddol rhesymegol. Nid yn greawdur holl-alluog, ond yn wirionedd personol mynwesol. Meddai: *Tân. Duw Abraham. Duw Isaac. Duw Jacob. Nid Duw'r athronwyr a'r addysgiedig. Sicrwydd. Sicrwydd. Teimlad. Llawenydd. Heddwch.* Profiad personol – anodd dychmygu profiad mwy personol. Nid canlyniad i ddadl athronyddol nac arbrawf wyddonol. Duw'r Fflam yw hwn. Duw ysbrydoliaeth, Duw cariad di-amod **agape**

[Agape]

*Ysgrif o berfedd asgre yw gwir*
*Gair o gariad Ia-we;*
*Llon gopaon agape*
*Yw'n Berwyn, nos a bore.*

Meddyliwch ein bod yn byw ym myd y trionglau. Byddai popeth yn ein byd yn dair-ochrog. Ta waeth i ba le yr edrychem, edrychasai popeth fel triongl. Dywedodd yr athronydd Ffrengig Montesquieu: *Pe byddai gan drionglau dduw, byddai'r duw hwnnw ei hun yn driongl.* Dywedodd athronydd arall o Ffrancwr, Voltaire:*Creuodd Duw pobl ar ei ddelw ei hun, ac y mae pobl wedi mwy na thalu'r teyrnged yn ol!*Dyma rhybudd syml ac effeithiol am beryglon crefydd - a gwaeth i ni fyth ei anghofio. **Gwaith dyn yw crefydd. Gwaith Duw yw ffydd.** Gan mai dim ond y byd o'n cwmpas sydd genym i gysylltu â fe, meddyliwn am bopeth - gan gynwys Duw - yn nhermau bydol. Mae'n anochel. Nid oes iaith na dychymyg na gweledigaeth bellach yn bosib i feidrolyn. Ond ar gyfeiliorn awn yn aml o feddwl fod dyn yn gwybod y cyfan. Gall ein crefydd rhwystro'n ffydd. Gall crefydd ein dallu rhag weld Duw. Gall crefydd arwain y ddynioliaeth ar hyd lwybrau tywyll. Ond nid felly ein ffydd. Pwy a gara'i gymydog a'i wawdia, a'i dwylla, a'i ledda? Pwy a gara'i gymydog eiff â dryll i ryfel? Eiff â ffrwydradau i ganol torf a'i chwythu ei hun a phawb o'i gwmpas i ebergofiant? Pwy a gara'i gymydog a lywodraetha gwlad er mantais y gwŷr mawr a'r cyfoethog a'u **vested interests**, nid er mwyn lleihau tlodi, hybu cydraddoldeb a thegwch a dysg – a chynaladwyedd ein planed a'n natur?

Pwy a gara'i gymydog all lynu wrth hen strwythurau crefyddol sydd erbyn heddiw yn amlwg yn amhriodol? Cariad, cydwybod, addysg a deall yw'r ffordd at Dduw. Credu a gweithredu yw'r ffordd.

Dyma osodiad heriol yr athronydd o Gristion, Dietrich Bonhoffer:

*Nid yw'r syniad o Dduw bellach o unryw ddefnydd ymarferol wrth adnabod a dehongli natur, ac yn wir rhwystra ddealltwriaeth a dehongliad well. Yn ymarferol, mae Duw fwy-fwy nid fel arglwydd ond yn hytrach fel gwên rhyw **Cheshire cat** cosmig yn araf ddiflanu. Cyn bo hir, fydd yr un mor amhosib i berson addysgiedig, gredu yn Nuw fel ei ganfyddir heddiw, â chredu mewn Daear fflat, neu mewn creu pryfed o ddim byd o gwbl ar amrantiad, neu credu mai melltith Duw yw pob afiechyd dynol, neu mai gwaith gwrachod yw pob marwolaeth. Bellach, dim ond er mantais a budd rywrai arbenig - y **vested interests** - mae duwiau'n goroesi.Neu o ganlyniad i feddyliau diog, neu fel pypedau gwleidyddol, neu fel seintwar eneidiau anhapus, anwybodus.*

[YGair]

*Enllib yw ffrwythau'r winllan - hen gredo*
*Yn eneinio anian;*
*Iau o glemau'r ysbryd glân*
*Yw baich y Cristion bychan.*

Nid modd i lenwi gwacter bywyd yw Duw. Nid ffordd y frwsio popeth sy'n rhy anodd i'w esbonio - neu'n rhy anodd i'w ddatrys - o dan y mat. Nid modd i guddio anwybodaeth a diffygion dyn yw Duw. Mae genym feddyliau craff, mae genym athroniaeth a gwyddoniaeth. Ni ellid esgusodi anwybodaeth na diogrwydd,na meddyliau cul, caëedig wrth feddwl am Dduw.

Nid anghrediniwr oedd Bonhoffer - fe'i laddwyd gan y Natsiaid o achos ei Gristnogaeth. Ond mynai fod angen **Cristnogaeth heb grefydd** arnom. Credai fod angen cael gwared â hen strwythurau crefyddol er mwyn dod yn nes at gwir Gristnogaeth. Nid oes angen dogma crefyddol - yr holl gyfundrefnau crefyddol yn y byd - rhwystr yw'r rhain rhag gwir ffydd - yn cadw dyn o Dduw. Daliadau tebyg iawn oedd gan yr athronydd Paul Tillich. Credai mai Duw yw sail ansigladwy ein bywydau, bôn ein bodolaeth, dyfnder ein dwystra am ystyr a gwerth bywyd. Duw'r Fflam.

[Bonhoffer]

*Hel yr Oen â meddwl rhydd yw neges*
*Cristnogaeth di-grefydd;*
*Nid cyfrol ffurffiol yw ffydd,*
*Ond awen lawen lywydd.*

Credai Bonhoffer y dylsem geisio canfod Duw, adnabod Duw, yn yr hyn y gwyddom - nid yn yr hyn na wyddom. Anghofiwch am bethau tuhwnt i'n deall. Chwiliwn am Dduw - Duw'r Gwybod a Duw'r Fflam - yn yr hyn yr ydym yn ei ddeall. *Y tragwyddol ym mêr bywyd* yw Duw i Bonhoffer. **Immanence**yw'r term athronyddol. A dyna yw Duw i minai hefyd. Duw'r Fflam.

Mae'r niwrofiolegydd wedi sylwi fod yr ymenydd ddynol fel petai ag angen cynhenid i chwilio am ystyr. Rydym fel petai'n synhwyro fod mwy i fywyd na molecylau. Mae'r pregethwr a'r bardd wedi sôn droion am **y fflam mewnol** neu'r **golau mewnol** sydd fel petai'n ein cynal o ddydd i ddydd. Rydym yn gwahaniaethu'r reddfol rhwng y **pen** a'r **galon** - y meddwl caled a'r ysbryd cymdeithasol. Mae rhai yn sôn am y profiad o deimlo'n hollol un â natur - mae gofodwyr yn arbenig wedi profi hyn wrth edrych yn ol o'r gofod ar ein Daear. Ry'n ni 'gyd yn 'nabod y teimlad, rwy'n siwr. Teimlo'r wefr wrth edrych ar y sêr wedi iddi nosi - neu edrych ar y machlud o draeth Nefyn, neu edrych i lawr o Fan Sir Gaer ger Llyn y Fan dros Gwm Tawe i'r môr.

**[Operating system]** Mae 'na rywbeth yn ein gwneuthuriad ni. Rhywbeth cynhenid i bopeth byw. Rhywbeth sy'n ein hanog i fyw, i oroesi, i fod. Yn nhermau cyfrifiadurol, mae 'na *ysbryd yn ein peiriant.* Mae gan bob cyfrifiadur sistem sy'n reoli'r **hyn** sy'n bosib iddo gyflawni. Iaith, â gair am bob tasg gall y cyfrifiadur ei wneud. **Operating system** i'r Sais. Glywsoch rwy'n siwr am **Windows**, ac **Apple**, am **Linux** ac**Android**. Sistemau gweithredol ein cyfrifiaduron, tabledau a ffonau symudol yw'r rhain. Mae genym ni ein **operating system** hefyd – llawer cymhlethach na sistem gyfrifiadur, ond – mewn egwyddor – sistem debyg iawn. Fel y ffwng a'r blodau a'r coed a'r cwrel a'r pysgod a'r anifeiliaid i gyd, yr un sistem yn y bôn. Ond mae'n sistem ni wedi esblygu i fod yn **dorfol**. Fel defaid a da byw a morgrug a gwenyn – a llewod a bleiddiaid hefyd - mae'n sistem ni'n ein hanog i fod yn reddfol dorfol – yn sylfaenol gymdeithasol – i feddwl am fuddianau'r dorf – ein cymdeithas, ein cymdogion – gydmaint â buddianau ni ein hunain. Ond mae rhywbeth rhyfeddach fyth yn sistem weithredol dyn. Mae ganddo'r gallu a'r ysgogiad i ystyried nid yn unig ei fuddianau personol a buddianau ei dorf. Mae hefyd ganddo'r ysgogiad i ystyried buddianau **pob** torf – ei dorf ei hun a phob torf arall. I ystyried buddianau'r greadigaeth gyfan. Buddianau popeth byw, a phopeth anfyw. Y bydysawd gyfan. Yn hyn o beth – hyd y gwyddom ni – mae dyn yn unigryw yn y greadigaeth. Nid oes un bod naturiol arall – y gwyddom amdano – â'r gallu i ystyried, i ofalu, i feithrin y blaned gyfan - â'r gallu i gydnabod rhyfeddod a gogoniant y bydysawd cyfan. Mae gan ddyn **gyd-ymwybod**.

*Dyma obaith cydymwybod - rhywle*
*Fel gwynfe i ganfod*
*Ein coed yng ngwedd rhyfeddod:*
*Un pren pur yw wyneb bod.*

Yn yr ystyr hwn, mae dyn yn anwadol sbesial. Mae ganddo'r fraint a'r cyfrifoldeb i ofalu am natur. Mae ganddo'r gallu i ddifetha natur. Yn yr ystyr ymarferol hwn, y mae dyn yn sicr yn uwch

naturiol.Mae dyn mewn sefyllfa i helpu cynal y Ddaear – ac i werthfawrogi'r greadigaeth gyfan – yn well na neb. Mae dyn â'r gallu i gynal, fel Duw.**Y mae dyn yn fab i Dduw**. Yn yr ystyr diamheuol hwn, mae Duw'r Fflam yn ffaith.

Ond os taw ysgogiad **naturiol** – ysgogiad yr **operating system** – yw syflaen Duw'r Fflam, mae pethau'n troi'n rhyfeddach fyth. Ein natur yw Duw'r Fflam felly, natur a greuwyd gan Dduw'r Gwybod –natur sy'n un â Duw'r Gwybod. Yr **un** yw Duw'r Gwybod – Duw'r creawdwr, Duw'r cynhaliwr, Duw'r gwyddonydd, Duw'r perianydd – â'r Duw personol, Duw'r ysgogiad greddfol, Duw'r Fflam. **Un yw Duw**. Cyd-ymwybod. Un yw Duw.

*Dyma obaith cydymwybod - rhywle*
*Fel gwynfe i ganfod*
*Ein coed yng ngwedd rhyfeddod:*
*Un pren pur yw wyneb bod.*

**[Casgliad]**Ry'n ni'n tynu at derfyn, byddwch yn falch i glywed. Gadewch i ni grynhoi. Hyd y gwelaf i, ni all neb wadu fod Duw – yn ffurf Duw'r Gwybod - yn bod. Yr ydym yn bodoli - drwy rhyw wyrth naturiol. Credwch ffiseg y Glec Fawr ac esblygiad, neu stori'r creu - air-am-air - neu credwch unryw ddamcaniaeth arall. Mae ffaith ein bodolaeth yn anesboniadwy, ac o reidrwydd yn brawf ddigonol o fodolaeth Duw. Ond nid yw'r ffaith ein bod yn derbyn bodolaeth Duw yn ein galluogi i'w weld na'i ddeall. Ond y mae'n bod.

Mae'n byd wedi newid llawer ers cyfnod yr Hen Destament a'r Testament Newydd. Ymgais dyn i ddatguddio gwaith Duw yw llyfrau sanctaidd pob crefydd. Mae angen gofal wrth ddehongli'r ysgrythurau yn y byd sydd ohoni - rhyfeddod y Beibl yw ei fod mor berthnasol yn y ganrif gyntaf ar hugain. Ymgais yw Talmwd yr Iddew i ddehongli'r Tora - sef pump llyfr cyntaf yr Hen Destament. Gwyddai'r Iddew fod rhaid dehongli - a hyd yn oed addasu - neges y llyfr sanctaidd ar hyd yr oesoedd. Mae'r Mwslim yn yr un ffordd yn cydnabod fod rhaid dehongli ysgrythurau cynar y Coran yn ofalus - **abrogation** yw'r term technegol yn y Saesneg. Mae myfyrwyr yng ngholegau Iddewig yn dysgu i drafod a dadlau'r Talmwd bob yn ddau - bron fel sail i'w ffydd. Yn wir, i'r Iddew, nid **llyfr** yw'r Talmwd o gwbl, ond **gweithred** - dadl –proses - trafodaeth am ystyr ffydd - trafodaeth a gynhaliwyd am filoedd o flynyddoedd - trafodaeth sy'n dal i fynd heddiw.

[Gwybod]

*Daw bendith heb ragrith brau*
*O wthio gyda'r ffeithiau;*
*A rhaid yw dal i gredu'n*
*Y ffeithiau, nid delwau dyn.*
*Er tawel gwir arddeliad,*
*Eofn yw â chyfiawnhad.*
*Syndod gwybod yw gobaith*
*Profi'r dydd drwy ffydd mewn ffaith.*

Sbardun i feddwl yw'r Beibl - a'r Tora a'r Talmwd a'r Coran a llyfrau sanctaidd ein crefyddau i gyd - ond sbardun yn unig. Dilynwn**Dduw**drwy rhyngweithio â'n gilydd, drwy drafod y pynciau mawr gyda'n gilydd, drwy ddarllen a myfyrio. Drwy dderbyn ein cyfrifoldeb fel gwarchodwyr y Ddaear - i

warchod natur, i feithrin natur. Drwy ddysgu, dad-ddysgu, a chywiro. Drwy rhanu profiadau bywyd. Drwy fynychu'r gwasanaeth ar y Sul. Drwy fyw - a gwneud y mwyaf o'r fraint o fod yn fyw - a byw bywyd i'r llawn. Drwy fyw - a gwneud camsyniadau, maddau camsyniadau eraill a gofyn i eraill faddau'n camsyniadau ni. Drwy fyw - a cheisio byw yn dda - a charu cymydog.Caru cymydog, caru natur, caru **pob** peth. Yng ngheiriau anfarwol Crwys:

[Gwynfyd, gan Crwys]

*Ei enw yw paradwys wen,*
*Paradwys wen yw enw'r byd,*
*Ac wylo 'rwyf o'i golli cyd*
*A'i geisio hwnt i sêr y nen.*

*Nid draw ar bellbell draeth y mae,*
*Nc obry yng ngwely'r perlau chwaith,*
*Ond milmil nes, a ber yw'r daith*
*I dawel byrth y byd di-wae.*

*Tawelach yw na'r dyfnaf hun,*
*Agosach yw na throthwy'r drws,*
*Fel pêr-welyau'r rhos o dlws -*
*A'r allwedd yn fy llaw fy hun.*

Er mwyn Ei Enw – A-men.

A gawn ni gloi'r oedfa drwy gyd-ganu rhif yr emyn 62.

EMYN 62 (Yr Arglwydd yw fy Mugail da)

*Yn ddefod, yn weddi ddwyfol – a iâs*
*Cael Iesu'n y ganol,*
*Rho oslef y nef yn ôl*
*I'm mynwes, Olau Mewnol.*

Y FENDITH

Bydded i ras Ein Harglwydd, Iesu Grist, ...